OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1338 (Cy.140)

# Y PROFFESIWN MEDDYGOL, CYMRU

## Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Mai 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Mai 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Mehefin 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2 o Ddeddf Erthylu 1967(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 17 Mehefin 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Erthylu 1991(**2**).

### Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

**2.** Yn rheoliad 2 (dehongli) o'r prif Reoliadau, mewnosoder y diffiniadau canlynol yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

> ""the Statistics Board" means the Statistics Board established under section 1 of the Statistics and Registration Service Act 2007(**3**);
>
> "the Chief Medical Officer for Wales" means the Chief Medical Officer to the Welsh Assembly Government;".

(**1**) 1967 p.87 ("y Ddeddf"). Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adran 2 o'r Ddeddf o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 1991/499 fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2002/2879 (Cy.275).

(**3**) 2007 c. 18.

**Diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau**

**3.** Yn rheoliad 4(2)(b) (sy'n ymwneud â hysbysiad o derfyniad a gwybodaeth ynghylch y terfyniad) o'r prif Reoliadau, yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Assembly Government".

**Diwygio rheoliad 5 o'r prif Reoliadau**

**4.** Yn rheoliad 5 (cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth) o'r prif Reoliadau —

(a) ym mharagraff (a)(i), yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "the Welsh Assembly Government";

(b) yn lle paragraff (a)(ii) rhodder—

"(ii) to the chairman of the Statistics Board or a member of the Statistics Board's staff who has been duly authorised by the chairman.".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

21 Mai 2008

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 2 a 4 o Reoliadau Erthylu 1991(**4**) ("y prif Reoliadau") er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn nheitl Prif Swyddog Meddygol Cymru o ganlyniad i sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**5**).

Maent hefyd yn diwygio rheoliadau 2 a 5 o'r prif Reoliadau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007(**6**) sy'n sefydlu bwrdd ystadegau annibynnol sy'n gyfrifol am swyddogaethau ystadegol a gafodd eu cyflawni'n flaenorol gan y Cofrestrydd Cyffredinol drwy'r gangen weinyddol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Nid oes asesiad o effaith reoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 1991/499, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2879 (Cy.275)
(**5**) 2006 p.32.
(**6**) 2007 p.18.